**Llunio Lleoedd ar gyfer Llesiant yng Nghymru**

**Naratif Diwygiedig y Theori Newid – Rhagfyr 2024**

## 1. Beth yw man cychwyn y rhaglen?

Mae gwaith y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGCau) ar wahanol gamau o ran gwreiddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy (5 ffordd o weithio) Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae rhai Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus wedi dechrau croesawu dulliau meddwl trwy systemau, er enghraifft Dull Systemau Cyfan Pwysau Iach: Cymru Iach. Mae cynlluniau llesiant BGCau wedi'u cynhyrchu ac mae'r BGCau ar gamau gwahanol o ran nodi meysydd blaenoriaeth ar gyfer gweithredu. Mae BGCau yn cael cymorth gan amrywiaeth o sefydliadau a rhaglenni (e.e. Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, Rhwydwaith Cydgynhyrchu Cymru).

## 2. Gweithgareddau tîm rhaglen Llunio Lleoedd ar gyfer Llesiant Cymru

Bydd tîm y rhaglen yn cyflwyno'r gweithgareddau canlynol:

- sesiynau gwybodaeth i gadeiryddion y BGCau
- alinio'r rhaglen â gwaith Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol
- sesiynau ar weithgareddau dulliau meddwl trwy systemau i grwpiau dysgu
- digwyddiadau blynyddol ar draws y grwpiau dysgu
- cymorth i gyfranogwyr mewn grwpiau dysgu gymhwyso dysgu yn y BGCau
- datblygu sianel MS Teams ar gyfer rhannu gwybodaeth a chydweithio
- cytuno ar egwyddorion dull meddwl trwy systemau gyda thîm Dull Systemau Cyfan Pwysau Iach: Cymru Iach
- meithrin perthynas a chael ymrwymiad ar draws y BGCau

## 3. Yr hyn fydd yn digwydd yn y grwpiau dysgu

Bydd y gweithgareddau canlynol yn cael eu cynnal yn y grwpiau dysgu:

- gweithio drwy weithgareddau dull meddwl trwy systemau
- rhannu gwybodaeth a mewnwelediadau gyda chyfranogwyr eraill y grwpiau dysgu
- myfyrio ar weithgareddau a gyflawnwyd mewn sesiynau grŵp dysgu a'u cymhwyso yn y BGCau, a
- bydd cyfranogwyr yn rhoi adborth ar weithgareddau'r rhaglen

### 3.1 Sut y bydd newid yn digwydd yn y grwpiau dysgu

Mae'r mecanweithiau newid (moddau gweithredu sy'n deillio o'r Offeryn Theori a Thechnegau) yn disgrifio sut y bydd newid yn digwydd.

Yn y grwpiau dysgu, mae ffocws ar feithrin credoau, agweddau a chymhelliant fel bod cyfranogwyr yn:

- datblygu credoau cadarnhaol am eu galluoedd meddwl trwy systemau

- credu y bydd defnyddio offer a dulliau meddwl trwy systemau yn arwain at gamau gweithredu gwell ac effeithiol, a'u
- bod yn cael eu cymell i brofi a rhannu dysgu ar ddefnyddio offer a dulliau meddwl trwy systemau yn eu BGCau.

## 4. Yr hyn a fydd yn digwydd ar lefel y BGCau

Bydd y gweithgareddau canlynol yn digwydd ar lefel y BGCau

- bydd cyfranogwyr y grwpiau dysgu a thimau BGCau yn addasu offer a dulliau meddwl trwy systemau ar gyfer eu cyd-destun lleol
- bydd hyrwyddwyr rhaglen lefel weithredol yn codi proffil y rhaglen; bydd rhwydweithiau cymorth lleol/rhanbarthol ar gyfer meddwl trwy systemau a gwaith ar bynciau o fewn y systemau diddordeb yn cael eu datblygu
- bydd cyfranogwyr grwpiau dysgu yn profi offer meddwl trwy systemau a dulliau yn y BGCau, a
- bydd cyfranogwyr y rhaglen a chydweithwyr o'r BGCau yn rhoi adborth ar gymhwyso'r gweithgareddau a gynhaliwyd yn y grwpiau dysgu i lywio'r gwaith o addasu'r rhaglen

Cefnogaeth gan sefydliadau a rhaglenni eraill sy'n llywio diwylliant a ffyrdd o weithio BGCau.

### 4.1 Sut mae newid yn digwydd ar lefel y BGCau

Mae'r mecanweithiau newid (moddau gweithredu sy'n deillio o'r Offeryn Theori a Thechnegau) yn disgrifio sut y bydd newid yn digwydd**.**

Ar lefel BGCau, disgwylir i newid ddigwydd drwy'r dulliau gweithredu canlynol: cyd-destun ac adnoddau amgylcheddol; credoau, agweddau a chymhelliant; dysgu a dylanwad cymdeithasol a gwybodaeth a sgiliau.

- *Cyd-destun ac adnoddau amgylcheddol*- bydd uwch arweinwyr y BGCau yn gwerthfawrogi'r rhaglen, yn llofnodi cytundebau dysgu ac yn cefnogi cyfranogwyr y rhaglen.
- *Credoau, agweddau a chymhelliant* – bydd aelodau'r BGCau yn credu y bydd dulliau meddwl trwy systemau yn arwain at well penderfyniadau a chamau gweithredu effeithiol.
- *Dysgu a dylanwad cymdeithasol* - bydd y BGCau yn dylanwadu ar ei gilydd i ddefnyddio dulliau meddwl trwy systemau; bydd cyfranogwyr y grwpiau dysgu yn dysgu oddi wrth ei gilydd am ddatblygu cynlluniau llesiant a chymhwyso offer a dulliau systemau.
- *Gwella gwybodaeth a sgiliau* - bydd cyfranogwyr y grŵp dysgu yn datblygu gwybodaeth mewn offer meddwl trwy systemau a dulliau a sgiliau wrth gymhwyso offer a dulliau meddwl systemau. Bydd cydweithwyr o'r BGCau y tu allan i'r grwpiau dysgu yn datblygu gwybodaeth am ddulliau meddwl trwy systemau.

## 5. Yr effeithiau tymor byr

Ynghyd â chymorth gan sefydliadau a rhaglenni eraill sy'n llywio diwylliant a ffyrdd o weithio i'r BGCau, yr effeithiau tymor byr a ragwelir ar gyfer y rhaglen yw:

- gallu cynyddol i feddwl trwy systemau ymhlith cyfranogwyr y grwpiau dysgu a'r BGCau
- bydd y BGCau yn defnyddio offer systemau a dulliau i ddeall a nodi gweithredoedd o fewn systemau o ddiddordeb
- nodi dulliau systemau ar gyfer gwella canlyniadau llesiant
- defnyddio egwyddor cynaliadwyedd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn fwy eang (Cymru) (5 Ffordd o Weithio), a
- chynyddu'r gallu i ddefnyddio offer a dulliau meddwl trwy systemau

## 6. Y canlyniadau tymor canolig

Yr effeithiau tymor canolig a ragwelir ar gyfer y rhaglen yw:

- tystiolaeth o ddulliau meddwl trwy systemau wrth gynllunio a datblygu cynlluniau llesiant BGCau yn y dyfodol
- rhagor o systemau'n gweithio mewn partneriaeth â'i gilydd
- gwella cryfder rhwydweithiau
- rhagor o bolisïau cydgysylltiedig
- cymhwyso dull dysgu meddwl trwy systemau a rennir ledled y DU, a
- sefydlu cymuned o ddiddordeb dull meddwl trwy systemau

## 7. Y canlyniad hirdymor

Y canlyniad hirdymor dymunol yw dylanwadu ar benderfynyddion ehangach iechyd ar gyfer iechyd a thegwch.